



YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE
CYLCHLYTHYR 1 – TYMOR Y GWANWYN 2018
SPRING TERM 2018 – NEWSLETTER 1



www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npted.org

Blwyddyn Newydd Dda arbennig i bawb / *a Very Happy New Year to everyone.*

Llongyfarchiadau / Congratulations

Diolch o galon i bawb am eu gwaith caled tuag at y gwasanaethau Nadolig yn ddiweddar, yn enwedig y disgyblion – arbennig.

A big thank you to everyone for their preparations towards the Christmas concerts, especially the pupils – excellent.

Diolch o galon i'r disgyblion drefnodd weithgareddau ar gyfer Plant Mewn Angen. Llwyddodd yr ysgol i godi swm o £584.50. Codwyd hefyd £253 ar gyfer Llyfrau Llafar Cymru. Diolch hefyd am eich cefnogaeth parhaol i gasgliadau bwyd y Pantri, yn enwedig ar amser anodd o'r flwyddyn.

A big thank you to all pupils who arranged and participated in activities for Children in Need. The school raised the sum of £584.50. £253 was also raised for Talking Books Wales. A word of appreciation for your continued support towards the food collections of the Pantry, especially at this difficult time of the year.

Gwasanaethau Dosbarth / Class Assemblies

Mae ein cyfres o wasanaethau dosbarth yn ail gychwyn wedi'r Nadolig gyda dosbarth Miss Mair Davies ar Ddydd Mawrth, Ionawr 30^{ain}. Mae croeso mawr i rieni ymuno â ni i gyd-addoli. Mae gweddill rhaglen y tymor yma isod. Cadwch lygad ar ein cylchlythyron a safwe'r ysgol am ddyddiadau pellach yn ystod tymor yr Haf.

Our program of class assemblies re-commences with Miss Mair Davies's class on Tuesday, January 30th. As always, we warmly invite parents to join us in worship. The program for this term is below. Keep an eye on our newsletters and the school website for further dates during the summer term.

Dydd Mawrth / *Tuesday* 30.01.18 - 9:00-9:30am – Dosbarth B4&5 Miss M Davies
Dydd Mawrth / *Tuesday* 06.03.18 - 9:00-9:30am – Dosbarth B3 Miss Catrin Lewis
Dydd Mawrth / *Tuesday* 20.03.18 - 9:00-9:30am - Dosbarth D&B1 Mrs Lewis Jones
Dydd Mawrth / *Tuesday* 27.03.18 - 9:00-9:30am – Dosbarth B3&4 Mrs Siân Richards
Dydd Mawrth / *Tuesday* 24.04.18 - 9:00-9:30am – Dosbarth Derbyn Mrs Jones / Mrs Morgan

Presenoldeb / Attendance


Ar hyn o bryd mae ein presenoldeb ysgol gyfan ers mis Medi wedi cyrraedd 95.96%. Am y tymor yma, mae'r ffigwr yma yn ein gosod yn 6^{ed} (o 56 ysgol) yn yr Awdurdod. Arbennig - Diolch yn fawr i chi gyd a helpwch ni gadw a gwella'r lefelau yma. (Gweler Isod)

Cofiwch, nid yw'r ysgol bellach yn awdurdodi gwyliau. Fe fydd pob gwyliau yn cael ei gofnodi'n anawdurdodedig. Os yw'ch plant yn absennol oherwydd salwch, cofiwch hefyd ddarparu tystiolaeth feddygol i ni os yw ar gael. Yn ychwanegol i'r tystysgrifau tymhorol, mae'n ofynnol i ysgolion ddanfoni llythyron o rybudd at rieni lle mae presenoldeb ei plant yn is na'r targedau. Mae'r awdurdod bellach wedi cynyddu'n sylweddol y nifer o hysbysebion cosb.

Currently, our whole school attendance level since September is 95.96%. For the term, this ranks us 6th (of the 56 schools) in the Authority. Excellent - A big thank you to all and please help us maintain and improve this level. (See below)

Remember that the school no longer authorises holidays and all term time holidays are recorded as unauthorised. If your child is absent through illness, can you also provide us with medical evidence if available. Schools are now required to send warning letters to parents where their children's attendance is below targets. The authority has significantly increased its issue of fixed penalty notices.

Year	Sept	Oct	Nov	Dec	Jan	Feb	Mar	Apr	May	June	July	Total	To 31/12	Diff
2013/14	95.82%	96.76%	94.85%	94.40%	95.90%	94.55%	94.75%	94.36%	94.84%	95.75%	93.73%	95.17%	95.51%	-0.34%
2014/15	96.31%	96.34%	95.08%	93.07%	95.51%	96.24%	95.21%	96.58%	92.75%	94.55%	94.39%	95.13%	95.31%	-0.19%
2015/16	96.10%	96.09%	95.10%	92.86%	94.07%	95.78%	95.71%	95.17%	94.07%	94.14%	90.95%	94.67%	95.18%	-0.51%
2016/17	95.95%	95.85%	95.45%	92.14%	96.50%	95.84%	96.39%	96.09%	94.27%	95.50%	94.54%	95.44%	95.12%	0.33%
2017/18	96.27%	96.09%	96.09%	95.22%								95.96%	95.96%	0.00%



Staff / Staff

Dymunwn y gorau i Mrs Laura Evans a Miss Jeanette Burden fydd yn cychwyn ar gyfnodau mamolaeth cyn hir ac estynnwn groeso i Miss Eleri Phelps a fydd yn addysgu'r dosbarth meithrin a Miss Saffron Rees fydd yn cynorthwyo yn y derbyn yn ystod y cyfnod yma.

Fe fydd Miss Stephanie Davies yn cynnal nosweithi rhieni blwyddyn 1 a 2 yn yr wythnosau sy'n cychwyn yr 22^{ain} a'r 29^{ain} o Ionawr. Fe fyddwch yn derbyn amser penodol cyn hir a diolch eto am eich cydweithrediad.

We wish Mrs Laura Evans and Miss Jeanette Burden all the best as they soon will commence maternity leave and welcome Miss Eleri Phelps who will be teaching the Nursery Class and Miss Saffron Rees who will be supporting the reception class during this time. Miss Stephanie Davies will be holding year 1 and 2 parents' evenings on the weeks commencing 22nd and 29th January. You will receive your appointment times soon and many thanks for your understanding.



Croeso i Miss Eleri Phelps a fydd yn addysgu'r Dosbarth Meithrin

We welcome Miss Eleri Phelps who will be teaching the Nursery Class

Miss Stephanie Davies sy'n dysgu blwyddyn 1 a 2 yn ystod mamolaeth Miss Smyth
Miss Stephanie Davies who is teaching year 1 and 2 during Miss Smyth's maternity



Cofiwch / Remember



Cofiwch fod Mrs Natalie Fairburn ar gael fel swyddog cyswllt teulu. Ei rôl yw cynnig cymorth cyfeillgar i rieni a disgyblion a delio ag unrhyw anawsterau neu ofidion sydd gan deuluoedd yn yr ysgol neu adref.

Remember that Mrs Natalie Fairburn's position as a family liaison officer. Her role is to offer friendly support to parents and pupils and deal with any difficulties or fears that families experience in school or at home.

Llywodraethwyr / Governors

Mae adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni ar gyfer y flwyddyn 2016 – 2017 eisoes wedi'i ddsbarthu drwy ebost. Os nad ydych wedi ei dderbyn neu os oes angen copi caled arnoch, cofiwch

gysylltu â'r swyddfa. Llongyfarchwn Mr Ray Hanson am ei ethol fel cadeirydd a Mrs Bethan Gill fel is-gadeirydd y corff llywodraethu. Dymunwn y gorau iddynt wrth ymgymryd a'u rolau newydd.

The annual Governors' Report to Parents for the 2016 – 2017 academic year was recently distributed via email. If you've not received your copy or require a printed copy, please contact the school office.

Congratulations to Mr Ray Hanson on being elected as chair and Mrs Bethan Gill as vice chair of the governing body. We wish them well in their new roles.

Siarter Iaith Castell Nedd a Phort Talbot / Neath Port Talbot Language Charter

Mae'r ysgol yn gweithio tuag at ail wobwr arian Siarter Iaith Castell Nedd a Phort Talbot. Nod y Siarter yw

- Ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau fel bod ein holl blant a phobl ifanc yn ymwybodol o gyd-destun hanesyddol, diwylliannol, cymunedol ac ieithyddol Cymru.
- Cyfrannu'n greadigol at ethos Gymraeg yr ysgol.
- Hyderus i ddewis i ddefnyddio eu Cymraeg.
- Gwella eu sgiliau a rhuglder ieithyddol ar draws y Cwricwlwm ac yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.

Mae rhieni yn ganolog i hyn. Gobeithiwn eich cynnwys fwyfwy yn ein gwaith tuag at weithredu'r Siarter ac wrth atgyfnerthu manteision dwyieithrwydd gyda'r disgyblion.

The school is working towards the second silver stage of the Neath and Port Talbot Language Charter. The aim of the Charter is to

- *Inspire our children and young people to use their Welsh in all aspects of their lives and develop greater awareness of the historical, cultural, community and linguistic context of Wales.*
- *Contribute creatively to the school's Welsh ethos.*
- *Confident to choose to use their Welsh.*
- *Improving their linguistic skills and fluency across the Curriculum and ready to become citizens of Wales and the world.*

Parents are central to this aim. We hope to increasingly involve you in our work towards implementing the Charter and in reinforcing the benefits of bilingualism with the pupils.

Goruchwylwyr Cinio / Lunchtime Supervisors

Fe fyddwn eto yn hysbysebu'n fuan am oruchwylwyr amser cinio. Os wyddoch am unrhyw un a allai sbario awr amser cinio i ymgymryd â'r rôl, anogwch nhw i gysylltu â'r ysgol.

We will soon be advertising for lunchtime supervisors. If you know of anyone (parents / grandparents) who could spare an hour at lunchtimes, encourage them to contact the school.

Gwisg Ysgol / School Uniform

Diolch o galon i chi am eich hymdrechion i addasu'n llawn i'r newidiadau i'n gwisg ysgol. Alla i atgoffa rhieni'r adran iau yn benodol – Trowsus neu sgert lwyd, sgidiau du a chrys polo yr ysgol ar bob diwrnod ar wahan i ddydd Mercher (diwrnod ymarfer corff). Diolch. Mae gwybodaeth bellach am y wisg swyddogol ar ddiwedd y cylchlythyr. Mae nifer fawr bellach yn manteisio drwy archebu'r wisg gan ddefnyddio'r linc isod, talu ar lein a chasglu archebion o'r ysgol.

Thank you very much for adapting to the the modifications to the school uniform so quickly. Could I remind parents of the juniors especially – Grey trousers or skirts, black shoes and school polo shirt on all days apart from Wednesdays (PE Days). Thank you. Details of the official school uniform follows the newsletter. Many are now taking advantage of ordering online via the link and collecting from school.

<https://manhattan-online.co.uk/collections/ysgol-gymraeg-pontardawe>

System Daliadau Rhieni / Parent Pay

Diolch o galon i chi am eich parodrwydd i ddefnyddio a'ch amynedd arbennig yn ystod y tymor diwethaf wrth i ni sefydlu'r system. Gobeithio eich bod yn ei gweld yn haws trefnu taliadau. Yn bendant, mae'n gymorth mawr i ni. Gofynnaf i chi barhau i fod yn amyneddgar yn ystod yr wythnosau sydd i ddod wrth i ni ei hystyn i holl daliadau'r ysgol. Diolch.

Many thanks for your willingness to use patience as we were setting up the system over this past term. We hope that you are already seeing it easier organising payments to school. It is definitely a big help to us in

school. Could I appeal to you to continue to be patient over next few weeks as we extend the system to all school payments. Thank you.

Clybiau Allgyrsiol / After School Clubs

I'n galluogi i gynnal ystod y clybiau, rydym yn parhau i godi £1 y pen am bob clwb.

To enable us to maintain the range of clubs, we will continue to be charging £1 per head per club.

Nos Fercher / Wednesday Night

Clwb Pêl Chwaraeon (Bl. 3 i 6) / *Games Club (Yrs 3 to 6)*

Nos Iau / Thursday Night

Cynhelir **Adran y Barli** rhwng 3.15 - 4.15 ar gyfer Bl3 i Fl 6. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y tymor megis rygbi, pêl droed, pêl rwyd, gweithdai celf a choginio, gemau bwrdd, bingo, drama, cyfeiriannu, codio a chwaraeon tîm. Y gost yw £1 yr wythnos a bydd angen bod yn aelod o'r Urdd.

Adran y Barli meets 3.15 – 4.15pm for Yrs 3 – 6 pupils.

The menu of activities during the term includes netball, rugby, soccer, ball skills, art/cookery workshops, coding and bingo. The cost is £1 per week and pupils will need to be members of the Urdd.

Gwersi Offerynnol / Instrument Lessons timetable

Mae'r gwersi offerynnol ar y dyddiau isod / *Instrument lessons are currently on the following days*

Dydd Llun / Monday – Prês / *Brass* (Mr Wayne Pedrick)

Dydd Mawrth / Tuesday – Drymiau / *Drums* (Mr Lyn Rees)

Dydd Mercher / Wednesday – Llinynnol / *Strings* (Mrs Sharon Williams)

Dydd Gwener / Friday – Telyn / *Harp* (Miss Angharad Edwards)

Dydd Gwener / Friday - Llinynnol / *Strings* (Mrs Sharon Williams)

Cylch Meithrin Pontardawe

Fel gŵydd nifer ohonoch eisoes, mae Cylch Meithrin Pontardawe bellach wedi adleoli o Ganolfan y Groes i safle Ysgol Gymraeg Pontardawe. Estynnwn groeso mawr iddynt ac edrychwn ymlaen at gryfhau'r berthynas rhyngom. Os hoffech wybodaeth bellach, eu rhifau cyswllt yw Mrs Julie Davies 07480 667256 & Mrs Claire Morgan 07772 584433.

As a number of you are already aware, Cylch Meithrin Pontardawe has relocated from the Groes Community Centre to Ysgol Gymraeg Pontardawe. We extend them a very warm welcome and look forward to further strengthening our relationship. If you would like further information, their contact numbers are Mrs Julie Davies 07480 667256 & Mrs Claire Morgan 07772 584433.

Maes Parcio Rhieni / Parent Car Park

Rydym yn parhau i dderbyn adroddiadau o barcio anystyriol a pheryglus o fewn ac o gwmpas maes parcio'r rhieni. Fel gwydd rhieni'r disgyblion hŷn, fe gododd nifer anawsterau I&D gyda dyluniad y maes parcio gwaelod. Dyma'r unig faes parcio ar gyfer rhieni yn yr Awdurdod ac y mae angen i ni barhau i'w hargyhoeddi y gellid ei reoli. Er mwyn i'r ysgol i barhau ei gynnal fel maes parcio ar gyfer rhieni, mae'n angenrheidiol fod yr holl ddefnyddwyr yn arddangos ymddygiad barcio ragorol a dilyn y canllawiau isod.

- 1) Dilyn y llif unffordd.
- 2) Gyrru ar uchafswm o 5mya
- 3) Parcio oddi fewn y **gwagleoedd** yn unig – osgoi parcio yng nghanol y maes parcio.
- 4) Cofio – nad oes unrhyw sefyllfa lle na roddir blaenoriaeth i gerddwyr.

Mae anwybyddu'r canllawiau yma yn cynyddu'r risgiau i ddefnyddwyr eraill ac yn cynyddu'r risg o orfod cau'r maes parcio.

Mwy pryderus yw adroddiadau am geir yn parcio ar balmantau ac yn cau'r llwybrau diogel i ddisgyblion a'u teuluoedd (yn aml yn gwthio pramiau) gerdded i'r ysgol. Erfyniaf arnoch i ddangos ystyriaeth briodol. (Mae'r apêl hon i **bob** gyrrwr - gan gynnwys gyrrwyr ceir gyrriant 4 olwyn, BMWs a chlodwyr pobl)

We have received a number of reports of inconsiderate and dangerous driving behaviours in and around the parent car park. As parents of older pupils are aware, numerous H&S issues were raised with design of the lower car park. It is the only parent car park within the authority and the school has to demonstrate that

it can be managed to ensure its continued use. For the school to be able to maintain it as a parent car park, we need all users to continue to show exemplary parking etiquette at all times and adhere to the following guidelines.

- 1) Follow the one way system.
- 2) Maintain a speed of 5 miles an hour.
- 3) Only park in **designated** areas – refraining from parking in centre of car park
- 4) Remember - there is never any situation where pedestrians do not have priority.

Instances of these guidelines being ignored increase risks to other users and pose a real risk of the car park being closed.

More worryingly are reports of cars parking on pavements and blocking safe routes to school for pupils and their families (often with pushchairs). Please show consideration. (This appeal is to **all** drivers - including drivers of 4 wheel drives, BMWs and people carriers)

Cofion Gorau / *Best Wishes*



Ceri Emanuel
Pennaeth / *Headteacher*

Dyddiadur / *Diary* ----->






Ysgol Gymraeg Pontardawe Dyddiadur Ionawr 2018 / *January 2018*

Nos Lun Ionawr 8 ^{fed} <i>Monday, January 8th</i>	HMS <i>INSET</i>
Dydd Iau Ionawr 11 ^{eg} <i>Thursday January 11th</i>	B3&4 – Hyfforddiant Rygbi gyda'r Gweilch <i>Y3&4 – Rugby training by the Ospreys (in school)</i>
Llun / Mawrth, Ionawr 22 ^{ain} , 23 ^{ain} , 29 ^{ain} & 30 ^{ain} <i>Monday / Tuesday, Jan 22nd, 23rd, 29th & 30th</i>	Nosweithiau Rhieni B1 a 2 (3:15yp – 5:15yp) <i>Y1&2 Parents Evenings (Miss Smyth / Miss Davies)</i>
Dydd Iau 18 ^{fed} Ionawr <i>Thursday 18th January</i>	B4, 5 a 6 – Parti Stryd Diwrnod VE <i>Y4, 5 & 6 – VE Day Street Party (in school)</i>
Ion 19 ^{eg} , 25 ^{ain} , 26 ^{ain} a Chwef 1 ^{af} , 2 ^{ail} , 8 ^{fed} a'r 9 ^{fed} <i>January 19th, 25th, 26th and Feb 1st, 2nd, 8th and 9th</i>	B4 – Cywaith Ysgolion Creadigol (Iau & Gwener) <i>Y4 – Creative Schools Project (Thurs & Friday's)</i>
Dydd Gwener Ionawr 26 ^{ain} <i>Friday, January 26th</i>	Treialon Tim Clwstwr Siarter Iaith (YGG Pontardawe) <i>Language Charter Cluster Trials (Rugby & Netball)</i>
Dydd Mawrth Ionawr 30 ^{ain} <i>Tuesday January 30th</i>	Gwasanaeth Dosbarth B4&5 Miss Mair Davies <i>Class Assembly – Y4&5 Miss Mair Davies</i>
Dydd Mawrth Chwefror 6 ^{ed} <i>Tuesday February 6th</i>	B3&4 – Jambori'r Urdd <i>Y3&4 – Urdd Jamboree (at YG Ystalyfera Bro Dur)</i>
Chwefror 5 ^{ed} i'r 9 ^{fed} <i>February 5th to the 9th</i>	Wythnos Diogelwch y We <i>Internet Safety Week</i>
Dydd Llun Chwefror 22 ^{ain} <i>Monday February 22nd</i>	Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd (Codi arian i'r Urdd) <i>Red, White and Blue Day (Urdd Fundraising)</i>
Hanner Tymor 19 ^{eg} – 23 ^{ain} Chwefror (Clwb Urdd 19 ^{eg} – 21 ^{ain} yn yr ysgol) <i>Half Term 19th – 23rd February (Urdd Club in School 19th – 21st)</i>	
Dydd Mawrth, Chwefror 28 ^{ain} <i>Tuesday February 28th</i>	Lluniau Dosbarth (Gwisg Gwyl Ddewi) <i>Class Photos (St David's Day Dress)</i>
Dydd Iau Mawrth 1 ^{af} <i>Thursday, March 1st</i>	Gorymdaith Dydd Gwyl Ddewi <i>St David's Day Procession</i>
Dydd Gwener Mawrth 2 ^{ail} <i>Friday, March 2nd</i>	Eisteddfod Gwyl Ddewi'r Ysgol <i>St David's School Eisteddfod</i>
Dydd Mawrth Mawrth 6 ^{ed} <i>Tuesday March 6th</i>	Gwasanaeth Dosbarth B3 Miss Catrin Lewis <i>Class Assembly – Y3 Miss Catrin Lewis</i>
I'w gadarnhau <i>To be confirmed</i>	Eisteddfod Gylch yr Urdd <i>Urdd Local Eisteddfod</i>
12 ^{fed} i'r 16 ^{eg} o Fawrth <i>12th to 16th March</i>	Bloc Nofio B3 <i>Y3 Swimming Block</i>
Dydd Mawrth Mawrth 20 ^{fed} <i>Tuesday March 20th</i>	Gwasanaeth Dosbarth D&B1 Mrs Lewis Jones <i>Class Assembly – R&Y1 Mrs Lewis Jones</i>
19 ^{eg} i'r 23 ^{ain} o Fawrth <i>19th to 23rd March</i>	Bloc Nofio B4 <i>Y4 Swimming Block</i>
Dydd Sadwrn, Mawrth 24 ^{ain} <i>Saturday, March 24th</i>	Eisteddfod Ranbarth yr Urdd <i>Urdd Regional Eisteddfod</i>
Dydd Mawrth Mawrth 27 ^{ain} <i>Tuesday March 27th</i>	Gwasanaeth Dosbarth B3&4 Mrs Siân Richards <i>Class Assembly – Y3&4 Mrs Siân Richards</i>
Gwyliau Pasg – Cau ar ddydd Iau, Mawrth 29 ^{ain} ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 16 ^{eg} <i>Easter Holidays – School closes on Thursday, March 29th and will re-open on Monday, April 16th</i>	
Dydd Gwener Ebrill 20 ^{fed} <i>Friday, April 20th</i>	Rygbi'r Urdd <i>Urdd Rugby Tournament</i>
Dydd Mawrth Ebrill 24 ^{ain} <i>Tuesday April 24th</i>	Gwasanaeth Derbyn Mrs Jones / Morgan <i>Class Assembly - Reception Mrs Jones / Morgan</i>
2 ^{ail} i'r 9 ^{ed} o Fai 2018 <i>2nd to the 9th May 2018</i>	Profion Cenedlaethol (B2 – B6) <i>National Tests (Y2 – Y6)</i>
Dydd Iau Mai 24 ^{ain} <i>Thursday, May 24th</i>	Mabolgampau'r Ysgol <i>School Sports Day</i>
Hanner Tymor 28 ^{ain} – 31 ^{ain} Mai / <i>Half Term 28th – 31st May</i>	
Mercher i Wener Mehefin 6 ^{ed} i'r 8 ^{ed} 2018 <i>Wednesday to Friday June 6th to 8th 2018</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 5 â Llangrannog <i>Year 5 Residential Visit to Llangrannog</i>





Llun, i Wener Mehefin 4 ^{ydd} i'r 8 ^{ed} 2018 <i>Monday to Friday June 4th to 8th 2018</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 4 a Dan y Wenallt <i>Year 4 Residential Visit Danywenallt (2.5 days / pupil)</i>
Dydd Gwener Gorffennaf 6 ^{ed} <i>Friday, July 6th</i>	Mabolgampau Clwstwr Ysgolion YG Ystalyfera <i>YG Ystalyfera Cluster Sports Day</i>
Diwedd Tymor – Cau ar ddydd Mawrth, Gorffennaf 24 ^{ain} ac yn ail agor i ddisgyblion ar ddydd Mawrth, Medi'r 4 ^{ydd} <i>End of Term</i> – School closes on Tuesday, July 24 th and will re-open to pupils on Tuesday, September 4 th	



Ysgol Gymraeg Pontardawe Gwisg Ysgol / *School Uniform*

Gwisg Ysgol / <i>School Uniform</i>	
Crys Polo Nefi <i>Navy Polo Shirt</i>	
Crys Chwys Nefi <i>Navy Sweatshirt</i>	
Cardigan Nefi <i>Navy Cardigan</i>	
Trowsus neu Sgert Lwyd <i>Grey Trousers or Skirt</i>	
Esgidiau du <i>Black shoes</i>	

<https://manhattan-online.co.uk/collections/ysgol-gymraeg-pontardawe>

Ar ddiwrnod chwaraeon caniateir / <i>On PE days pupils can wear</i>	
Jogers nefi ac esgidiau ymarfer <i>Navy Joggers and trainers</i>	
Crys 'T' Nefi / <i>Navy T Shirt</i>	
Gwisg Swyddogol ar gyfer Eisteddfodau a Chyngherddau / <i>Official School Uniform for Eisteddfodau and Concerts</i>	
Trowsus neu Sgert Lwyd <i>Grey Trousers or Skirt</i>	
Crys neu flows gwyn <i>White shirt or blouse</i>	
Tei Ysgol / <i>School Tie</i>	Darperir gan yr ysgol / <i>supplied by school</i>

Drwy archebu ar lein gellid hefyd archebu llythrennau'r enw ar y crysau a'r crysau chwys - fydd sicrhau eu bod o hyd yn cael eu dychwelyd i'r plentyn cywir. Byddem yn argymhell hyn yn gryf!
Using the online ordering system, parents can also request initials on the polo shirts and sweatshirts - ensuring that clothing is always returned to the correct pupil. We would strongly recommend this!

Mae'r cyflenwr hefyd yn darparu'r isod / *The supplier can also offer the items below*
 Enwau'r disgyblion gellid eu gosod drwy smwthio / *Iron on Nametags*
 Hwdi gyda Zip / *Zip Hoodie*
 Cot 'Fleece'Ddiddos / *Waterproof Fleece*
 Cap Ysgol / *School Baseball Cap*
 Cwdyn Ymarfer Corff Ysgol / *School Gym Bag*
 Cwdyn Llyfrau Ysgol / *School Record Bag*
 Sach Gefn Ysgol / *School Backpack*

<https://manhattan-online.co.uk/collections/ysgol-gymraeg-pontardawe>